

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Irwyn Jones (Tanyfron), Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) ac Edith Maloney (Henllan) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Gwyneth Griffiths (Henllan) a Kitty Parry (Llanefydd) yn yr Inffirmari. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan weddio y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen. Bu i Bedwyr Roberts (Llanefydd) dreulio noson yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd, ond mae'n dda deall ei fod yn gwella erbyn hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Beryl Jones (Cartref Nyrsio Y Bwthyn, Yr Wyddgrug); Mrs Kate Davies (Coed Môr, Abergele); Mrs Morfudd Williams (Dolwen, Dinbych); Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenfyl Jones a Mr Gwyn H. Davies (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan weddio eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiau drostynt.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Alun Jones (Llanefydd) fydd yn dathlu penblwydd arbennig ddydd Mawrth!

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd **yr wythnos hon**, os gwelwch yn dda.

Nodyn i'r Trysoryddion: A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') erbyn Ebrill 10fed, os gwelwch yn dda?

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2016

Gair i'ch atgoffa fod angen mynd â'r cyweithiau i Capel y Rhiw, Pwllglas **nos Lun, Ebrill 11eg** rhwng 7.00 ac 8.00. A fyddwch cystal â rhoi enw'r capel a rhestr o enwau'r plant ar y gwaith, os gwelwch yn dda?

Y Pleidleisio!

Fel y gwyddoch, bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol mewn un oedfa ymhob capel, naill ai ar Ebrill 3ydd neu'r 10fed. Byddant yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn ag a ydych o blaid galw Gweinidog i fugeilio eglwys i'r Ofalaeth, a hefyd yn arwain pleidlais ddirgel i ddewis UN aelod (nad yw yn flaenor/diacon) i gynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol (os, neu pryd y bydd hwnnw yn dod yn weithredol). **Cewch enwi hyd at bump enw, ond yr aelod fydd wedi derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau, yn ogystal â'r blaenoriaid, fydd yn cynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol.** (Mae dyddiad y bleidlais yn eich eglwys chi wedi ei nodi o dan gyhoeddiadau pob eglwys.)

Darlleniad Wythnos Nesaf

Actau 12: 1-5 (BCND tud.142 / BCN tud.130)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Ebrill 2016

Darlleniad y Dydd

Mathew 28: 16-20

(BCND tud.36 / BCN tud.33)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Yr wythnos yma, fe fu nifer dda yn dathlu'r atgyfodiad yng Ngŵyl Llanw draw yng Nghricieth a chafwyd dyddiau arbennig o heulwen a chawodydd gras. 'Rhyfeddol Ras' oedd y thema ac fe'n harweiniwyd i ystyried effeithiau gras Duw – y gwahaniaeth y mae gras yn ei wneud ynom ni a thrwom ni. Un o'r cwestiynau heriol i'r gynulleidfa oedd y cwestiwn yma: 'A fedrwn ni gyfeirio pobl at un peth yn ein bywydau ni na fyddai'n wir amdanom oni bai fod gras Duw wedi ei roi i ni?' Gallwn briodoli cymaint i'n magwraeth, ein haddysg a dylanwad pobl eraill – ond beth fedrwn ni ei briodoli i Ras Duw yn unig? Yr hyn sy'n rhyfeddol am ras Duw ydi'r ffaith ei fod yn newid ein perthynas ni hefo Duw, ac effaith gras ydi ein bod yn gallu dweud 'lle roeddwn gynt yn ddall, rwy'n gweld yn awr'.

Gawsoch chi'r profiad o ffrind yn 'landio' heb rybudd wrth ddrws y tŷ erioed? Dod heb ei ddisgwyl a chyfnod go faith wedi pasio heb ei weld? Mae yna lawenydd pan ddigwydd hynny, ynghyd â mymryn o 'pam andros na fase ti wedi deud dy fod ti ar dy ffordd!' Ond mae hynny'n pasio'n fuan wrth gael mwynhad o'r gwmniaeth.

Wrth ddarllen am Iesu yn ymddangos i'r disgyblion ar ôl ei atgyfodiad, mae wedi fy nharo i gymaint o sioc oedd o iddyn nhw gael gweld Iesu eto. Weithiau, fe fyddai'n trefnu'r cyfarfod, ond dro arall, byddai'n ymddangos yn ddi-rybudd hollol ac yn siarad, bwyta, cyffwrdd ac anadlu yn eu gŵydd. Dwi'n meddwl y byddai yna hen graffu wedi bod, rhwbio llygaid a methu coelio, yn gymysg â rhyfeddod a llawenydd o'i gael yn ôl.

Mae ymddangosiadau corfforol yr Arglwydd yn y cyfnod rhwng yr atgyfodiad a'r esgyniad yn ffurfio rhan bwysig o neges y Cristnogion cynnar. Mae'r ffaith fod cannoedd o bobl wedi gweld Iesu fel hyn yn rhoi hygredded mawr i'r neges am atgyfodiad a bywyd tragwyddol i bawb a fyddai wedi clywed eu neges. Mae Crist wedi cyflawni popeth yn 'ôl yr Ysgrhythrau' ond y mae hefyd wedi cael 'ei weld gan Pedr a'r Apostolion eraill a chan bum cant o gredinwyr ar unwaith'. (1 Corinthiaid 15: 3-6)

Un o'r pethau y medrwn ei briodoli i Ras Duw yn unig ydi ein bod wedi 'gweld' Iesu a'n bod rŵan yn dyheu am gael ei weld 'fel y mae'. (1 Ioan 3:2) Dim ond gras Duw sy'n gyfrifol am hyn a llawenydd anhraethadwy sy'n dilyn y profiad rhyfeddol yma o ryfeddol Ras ein Duw. Gweddïwn am fendith ar waith Duw yn ein plith heddiw, ar y broses o bleidleisio ac ar ein haddoliad o'r Arglwydd mewn gair a gweithred.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 3^{ydd}

- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun, a bydd Aneurin yn pregethu.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Ffilmio? Dim Clem!** Diwrnod gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r sawl dy'n ddi-glem am ffilmio! Bydd cyfle i ddysgu sut i greu a golygu ffilm ddigidol ar eich camera rhad/drud neu ffôn yng Nghapel Caersalem, Caernarfon LL55 2RB o 10.00 tan 4.00. Cost: £5.00. Dewch a'ch cinio efo chi. Paneidiau ar gael trwy'r dydd! Ffoniwch 01758 770490 neu ebostiwch gwyn@ebcpcw.org.uk i gofrestru.

Sul nesaf – 10^{fed}

- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Dr Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i gymryd y pleidleisiau yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd y pleidleisiau yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Sul nesaf – 10^{fed}

Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00 a bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Tanyfron yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*).

Sul nesaf – 10^{fed}

Bydd Sarah yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00 a bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Nantglyn yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*).

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd y pleidleisio yn digwydd tan Ebrill 10fed. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Sul nesaf – 10^{fed}

Bydd Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 (*sylwch ar y newid*) a bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa yn Saron am 10.00. Bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddau wasanaeth i gymryd pleidleisiau'r ddwy eglwys yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00 a bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Henllan yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00, a bydd y Parch. Gerwyn Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn oedfa'r prynhawn i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Groes yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i gymryd y pleidleisiau yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion am 11.15. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Manylion Cyswllt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07849 591163

Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07900 308461

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.